YR YMOFYNYDD.

Rhif. 48.] RHAGFYR, 1862. [Ail Gyfres.

SYLWADAU AR Y CYMHWYSDER O YMBIL MEWN GWEDDI.

Cynnyg ar atteb i ofyniad Mr. D. E. Davies yn rhifyn Chwefror, tud. 46.

Y gofyniad sydd fel y canlyn:—"Pa fodd mae gweddio, deisyfu, ymbil, neu daer ymbiliad ar Dduw, geiriedig neu feddyliedig, yn gysonedig â'n proffesiad neu ardystiad o berffaith ffydd, neu hollol ymddiried yn mherffaith allu, doethineb a daioni Duw? Onid yw y naill yn gwrthddweud y llall? Dyben y cwestiwn yw, nid i led-amheu dim, ond ein dwyn trwy fwy manol ystyriaeth i gywirach syniad o bethau ynddynt eu hunain, ac felly yn eu perthynas â ninnau."

Yn awr, yn ol fel mae'r gofyniad wedi ei eirio, nis gallwn weled pa atteb arall a ellid ei roddi iddo, ond un *cadarnhaol*; sef, bod ymbil mewn gweddi yn gwbl gyson â'r grêd o fod Duw yn berffaith mewn gallu, doethineb a daioni. Ein hamcan, yn yr hyn a ganlyn, fydd cynnyg rhai sylwadau er cadarnhau ein gosodiad, heb fyned i ormod manylwch; gan ystyried y bydd hyny yn fwy buddiol a dyddorol i'r darllenwyr yn gyffredinol, ac hefyd yr ettyb hyny ddyben ein Gohebydd; gan gyfyngu y sylwadau ar y pwngc i dir crefydd *natur*. Buasai yn haws gorchwyl ac yn llawer mwy cyflawn o'i wneud ar dir dadguddiad Dwyfol. Ond ymddengys fel pe na b'ai cyfeiriad y cwestiwn y ffordd hyny. Addefir bod anhawsderau ynglyn â'r pwngc. Mae amser a gofod hefyd yn fyr arnom: nis gallwn obeithio gwneud cyfiawnder â phwngc mor helaeth. A chan nad yw y gofynydd wedi nodi yn mha le neu berthynas neillduol y mae yr annghysondeb tybiedig yn gorphwys, rhaid iddo ein cymmeryd ni yn esgusodol os na bydd i ni gyffwrdd a'r anhawsder ag oedd yn ei olwg ef.

Fe ymddengys bod ymbil ar Dduw mewn gweddi yn beth cwbl naturiol i bob dyn crefyddol i'w wneud. Y mae hyn yn beth cyffredinol, ac nid oes dim eithriad iddo a'r a wyddom ni. Mae ein darllenwyr oll, gobeithiwn, yn grefyddwyr mwy neu lai: yr y'm yn appelio at eu sylw a'u profiad eu hunain—ai nid yw yn beth naturiol i ymbil ar Dduw mewn gweddi? Appeliwn hefyd at hanes crefyddau'r byd. Ac os, fel y cymmerwn, ei bod yn ffaith i fod gwneud hyny yn beth naturiol, y mae yn canlyn ei fod yn gyssôn â chyfansoddiad ac amgylchiadau dynoliaeth; ac felly yn gysson â threfn ac ewyllys Duw.

Gwelir ein bod yma yn arfer y gair *gweddi* yn yr ystyr ëangaf—yr ystyr gyffredin, os nad ydym yn camsynied—fel yn arwyddocâu *annerchiad union-gyrchiol ac addoliadol* i Dduw, ac yn cynnwys, fel yr ystyrir yn gyffredin, addoliad, a mawl, a diolch, a chyffesiad yn gystal ag ymbiliad. Clywsom lefarwyr deallus a galluog, wrth ddesgrifio gweddi, yn dàl mai y peth a feddylir,

neu a ddylid meddwl wrth weddi, ydyw yr agwedd *weddus* i ddyn mewn addoliad i Dduw; neu ynte *agwedd* y gwir addolwr, o ran teimlad a meddwl wrth ddynesu mewn addoliad at Dduw. Golwg philosophyddol dichon ar y matter, ar un olwg. Diau mai agwedd gymhwys a gweddus, o ran meddwl a theimlad, ydyw yr hyn a wna y weddi addoliadol yn gymhwys ac yn effeithiol.

Rhaid addef, modd bynag, fod D. E. D. yn cadw at arferiad y iaith Gymraeg, pan y mae, yn ei ofyniad, yn arferyd y gair *gweddio* fel yn gyfystyr âg *ymbil, deisyf*, &c. Y mae yn ddiammau bod y gair gweddi yn Gymraeg, fel *prayer* yn Saesneg, yn arwyddocâu *ymbil, deisyf*, &c. Etto, y ddau air hyn yw y rhai arferedig yn y ddwy iaith am annerchiad addoliadol i'r Goruchaf. Yr hyn sydd yn dangos o leiaf nad oedd gan yr hynafiaid ddim un meddwl am unrhyw annerchiad i Dduw mewn addoliad a'r nad oedd yn cynnwys ymbil neu ddeisyfiad. Ac y mae yn debygol iawn y buasent yn edrych ar y neb na fuasai yn ymbil ar Dduw mewn gweddi, fel yn ymddwyn yn anghysson â'i sefyllfa; megys pe byddai un i guro wrth ddrws Brenin Mawr heb fod un neges ganddo; neu fod addolwyr yr Anfeidrol Dad i deimlo eu hunain mor ddigonol a phe na b'ai ganddynt ddim i ymbil am dano. Mae'n wir nad yw arferiad iaith, fel y mae yn dangos golygiadau ac arferiad ein hynafiaid, ddim yn ddigon i gyfiawnhau unrhyw anghyssondeb; ond yn y mater yma, fe ymddengys i ni ei fod yn myned gryn ffordd, er dangos nad yw ymbil ar Dduw mewn gweddi, o leiaf, ddim yn anghysson â natur dyn a'i sefyllfa a'i brofiad ar y ddaear. Ac nid y'm ni am faentumio nad oes neb wedi bod nac yn bod, yn arfer annerch yr Hollalluog Dad mewn addoliad, ac yn peidio yn gwbl âg ymbil am ddim oddiwrtho; ond yn unig nad y'm ni yn gwybod am y cyfryw. Darllenasom am weddi a wnaed unwaith yr hon nid oedd yn cynnwys un ymbiliad o'r dechreu i'r diwedd. Cyfeirio yr ydym at weddi y Pharisëad yn y deml. Ond nid oedd honno yn weddi wirioneddol na naturiol;—ond ymddangosiad yn unig, a rhagrith a gwag ymffrost.

Nid y'm ni yn cymmeryd arnom, ac nis gallwn gymmeryd arnom i amddiffyn neu gymeradwyo pob rhyw ymbiliau a wneir mewn gweddi ar Dduw, mewn pwlpidau a chyfarfodydd crefyddol. Bydded y cyfryw a weddiant neu a ymbiliant am bethau nad yw yn gymhwys iddynt ymbil am danynt, neu a wnant hyny mewn modd annheilwng (fel y tybier) i atteb drostynt eu hunain. Dichon fod gwallau ac anghyssondebau mewn gweddiau o'r fath wedi rhoddi tramgwydd i lawer, ac i D. E. D. ymhlith eraill. Byddai hyny yn gwestiwn cymhwys ddigon i'w drafod, ac yn wir y mae eisiau ei drafod. Ond nid hynyna yw y cwestiwn mewn llaw yn bresennol; y mae lle i ofni fod gweddiwyr yn rhy fynych yn fwy ymwybodol o bresenoldeb eu cyd-addolwyr nag y maent o bresenoldeb y Goruchaf. Ond nid dyna'r cwestiwn. Un peth yw gweddio ar Dduw gydag amherffeithrwydd neu gamsyniad, peth arall yw peidio a gweddio oll arno. Ac i wneud ein meddwl yn fwy amlwg ychwanegwn, Mai un peth yw gweddio neu ymbil ar Dduw am bethau nad ydynt yn gymhwys i ymbil am danynt, neu i wneud hyny mewn modd annheilwng; peth arall yw i weddio neu ymbil am bethau sydd yn gymhwys i ni ymbil am danynt, a hyny mewn modd gweddus a theilwng; a pheth arall etto, a chwbl wrthwynebol ydyw, i ni beidio ag ymbil ar Dduw mewn gweddi am ddim mwy na'i gilydd!

Mae yn ymddangos i ni fod ymbil ar Dduw mewn gweddi yn beth ag

sydd yn gwbl gytunol â llais natur, a rhagluniaeth; ac nad yw rheswm goleuedig yn ei warafun. Er nad ellir feallai yn eithaf priodol ddywedyd fod y tueddiad i hyn yn cyfodi oddiar reddf *(instinct)* gyffredinol a digyfnewid, planedig mewn dynoliaeth; yn gymmaint a bod rhai dynion yn gwadu neu yn ammheu y cymhwysder o hono, ymddengys ei fod er hyny yn cyfodi yn naturiol oddiar y cyfansoddiad a roddwyd i ni gan Dduw, a'r amgylchiadau a'r perthynasau sydd raid i ni fyned drwyddynt ar y ddaear. A pha betli bynag sydd fel yma yn rhan o drefn natur, nis gall fod yn anghysson âg ewyllys Awdwr natur. I'r gofyniad, gan hyny, Paham yr ymbiliwn mewn gweddi ar Dduw? mae yr atteb yn ddauddyblyg. Yn gyntaf: nis gallwn beidio: ac yn ail, y mae Efe wedi ein dysgu i wneud hyny.

Y mae sylw a phrofiad yn dangos bod ymbil neu weddio ar fod sydd uwch, yn naturiol i ddyn yn ei gyflwr egwan a dibynol—ei sefyllfa bresennol ar y ddaear. Ymddengys y tueddiad i hyn yn fore iawn—gyda gwawriad cyntaf sylw a theimlad, ac â yn y blaen o hyd i gael ei iawn-gyfeirio a'i goethi a'i dderchafu, gyda dadblygiad y meddwl a chynnyddiad gwybodaeth, trwy help profiad ac addysg ac esamplau da; ac, oddieithr ei gam-arwain a'i lygru gan oferedd a thwyll y byd, erys gydâ ni hyd ddiwedd oes.

Dyna y baban sydd yn gwenu neu yn llefain ar ei fam;—beth mae hwn yn ei wneud ond *ymbil* o hyd? Yn ei ffordd fach ddeniadol ef y mae yn llwyddo yn ei ymgais. Y mae yn dyfod i deimlo a gwybod hyny: mae yn dysgu'r wers, fod yr hwn sydd yn ceisio yn cael. Ac wedi i'r bychan hwn ddechreu tyfu i fynu, a dyfod dan ddisgyblaeth teuluaidd, odid y cyferfydd â dim, trwy sylw a phrofiad cynnyddol, a'r nas bydd i gadarnhau y wers hòno, ac i argraffu yn ddyfnach ar y meddwl mai "yr hwn sydd yn ceisio sydd yn cael." Ac hyd yn oed mewn teuluoedd lle y cymmerir gofal priodol gyda dygiad i fynu yr ifainge; a lle y dysgir y plant i ymddiried yn ngofal a chyfarwyddid eu rhieni, rhoddir aml gyfleusderau iddynt ddysgu a gweled nad yw y deisyfiadau a wnelont, gyda hyder plentynaidd, ddim yn anfoddloni tad neu fam, ac eu bod yn fynych yn cael trwy geisio bethau nad allent ddisgwyl eu cael heb hyny.

Yr un modd etto gyda'r ymdrafodaeth âg helbulon bywyd. At bwy yr awn mewn caledi neu gyfyngder, ond at un a gredwn ei fod yn alluog ac yn ewyllysgar i roddi cymhorth neu gyfarwyddid i ni? Ac onid y sawl sy'n gofyn sy'n derbyn yma etto? Ac ymddengys fod cymhwysder yn hyny. Y mae y sawl sy'n teimlo anghen a gwerth y peth a ddeisyfa yn ddiau yn fwy cymhwys i'w dderbyn na phe buasai yn ddifatter yn ei gylch.

Ymhellach, wrth ymwneud â gwasanaeth ac addoliad y Goruchaf, "yn yr hwn yr ydym yn byw, yn symmud ac yn bod," yr ydym yn dyfod i'r mwynhâd a'r arferiad o'n rhagorfraint uchel fel creaduriaid rhesymol; a chan y deuwn felly dan fwy a mwy dwys deimlad o'n dyled iddo a'n hymddibyniad arno, diau mai atto Ef y bydd ein tynfa yn barhaus. Ac nid yw mynegiadau natur "yn rhoddi sain an-hynod" yn y matter yma chwaith. Dan bob rhyw drallod, neu anghen, neu gyfyngder, cyfeiriant ni at y Cyfaill Goreu, ein Tad Hollgyfoethog. Atto Ef gan hyny y bydd tynfa yr enaid yn naturiol, mor naturiol ag "y brefa yr hŷdd am yr afonydd dyfroedd." Nid y'm ni etto wedi clywed na gweled un rheswm da dros beidio ymbil ar Dduw mewn gweddi. Ac yr y'm yn appelio at sylw a phrofiad pan y dywedwn, nad ydyw yn *fact* bod credu yn mherffaith allu, doethineb a daioni Duw, yn

weithredol yn attal y sawl a gredant felly rhag ymbil ar Dduw am unrhyw beth fwy na'i gilydd. Yn unig arweinia ac hyffordda ni, pa bethau y dylem ymbil am danynt, ac yn mha fodd.

Nid yw ein siarad yn awr am ymbiliadau ffol, anghymhwys neu ddiystyr, a ddichon bod yn arferol o gael eu gwneud gan hwn a'r llall. Priod swydd gwir grefydd a rhan bwysig o'r lles sydd yn deilliaw o honi, ydyw ei bod yn ein dysgu i iawn-weddio. Y weddi a siaradwn yn awr am dani yw, yr un sydd lafar naturiol y dymuniad a ddwys deimlir yn yr enaid. Ac yn ddiau, pa beth bynag sydd yn gymhwys i ni ddymuno i'w gael ac i daer geisio i'w gyrhaedd, nis gall fod yn anghymhwys i ymbil ar Dduw am dano. Nid oes dim ag sy'n rhyfygus mewn gwneud hyny; na dim a ymddengys yn groes i addysgiadau natur, fel eu hamlygir yn nghyfansoddiad a phrofiad dynoliaeth.

Y mae y ddau wrthddadl a ddygir yn gyffredin yn erbyn ymbil ar Dduw mewn gweddi, yn ymddangos i ni yn fyrbwyll ac yn arwynebol. Y canlynol ydynt. Yn gyntaf, bod gwneud hyny *yn afreidiol*, am y bydd doethineb a daioni perffaith i roddi ac yn rhoddi i bob dyn y peth sydd oreu iddo, pa un ai bydd iddo weddio am dano ai peidio. Haeriad yn unig, a haeriad nas dangosir un sail digonol yw dyweud, mai yr un peth a dderbyniwn oddiwrth Dduw pa un ai gweddiwn arno neu beidio. Ac yn ol y sylwadau a wnaed yn flaenorol, yr un peth mewn effaith fyddai hyny a haeru nad yw cymhwysder neu anghymhwysder yn y derbyniwr ddim yn un rhëol yn y cyfraniad o'r trugareddau Dwyfol? Lled wrthun fyddai hyny, onide?

Y mae dynion digrefydd yn gyffredin yn ddynion diweddi, ac yn ddiofal, ac yn ddifatter ynghylch bendithion ysprydol. Am nad ydynt yn teimlo anghen na gweled gwerth y pethau hyny, nid y'nt yn eu ceisio: ac am nad y'nt yn ceisio, nid ydynt yn cael. A ellir dangos fod y rhëol hon yn anghysson â doethineb a daioni perffaith?

Ond y mae awydd am ddedwyddwch, ac i ochelyd poen, yn reddf blanedig yn ein natur. Ymddengys mai y reddf hon, ynghyd a rheswm ac addysg, yw yr offerynau ag y mae y Tad Anfeidrol yn eu defnyddio er dwyn ei blant rhesymol atto Ef ei hun. Ac yn ol gweithrediad y reddf yma, bydd yr hwn fyddo yn teimlo anghen a chanfod gwerth unrhyw beth i fod yn awyddus i'w gael; ac oddiar hyny cyfyd gofal ac ymgais am dano, ynghyd âg ymdrech i'w gyrhaeddyd, ac yna yn tori allan yn naturiol mewn llafar gweddi, ac ymbil ar Dduw:—a phwy all ammhau nad yw y cyfryw yn gymhwys i dderbyn oddiwrth 'Rhoddwr' pob daioni yr hyn ni chawsai heb hyny?

Yr ail wrthddadl sydd gyffelyb i'r gyntaf: at fod gweddio yn afreidiol ychwanegir ei fod *yn ddi-effaith*, am fod Duw a'i drefn yn ddigyfnewid, ac am hyny nad yw gweddio yn atteb un dyben.

Yma etto collir golwg ar y ffaith, fod gweinyddiad deddfau yr Anghyfnewidiol Mawr i'w gweled yn fynych yn amrywio yn ol cymhwysder neu anghymhwysder dynion. Mae yr effaith, dywedir, bob amser yn canlyn yr achos, yn un gadwyn fawr trwy holl naturiaeth. Ond pwy all ddangos nas dichon fod y fath weddi ag yr ydys wedi ceisio ei desgrifio, yn *un o'r achosion* yn y gadwyn gyssylltiadol rhwng achos ac effaith; ac felly i effeithio yn y derbyniad o'r daioni a ddymunir? Ac heblaw, onid oes rhyw allu ac ewyllys tudraw i'r achosion a'r effeithiau sydd yn weledig i ni? Ai tybed fod y Creawdwr, wrth roddi deddf i'w greadigaeth, wedi ffurfio cadwyn i gyfyngu ei weithrediadau ei hun, neu ei fod ef ei hun dan lywodraeth tynghedfen *(fate)*, fel y

tybiai y Paganiaid am eu duw pennaf! Gellid dwyn rhesymau eraill yn gadarnhaol, ar dir crefydd naturiol. Ac y mae tystiolaeth yr ysgrythyr dros y peth; *tu hwnt* i bob dadl. Ond y mae yr ysgrif eisoes wedi myned yn rhy faith. Ar y cyfan ymddengys ar dir rheswm yn gystal a dadguddiad, Mai yr *hwn sydd yn ceisio sydd yn cael.* I.

GOFYNIADAU I'R ATHEISTIAID.

Mr. Golygydd,—Ysgrifenais y gân ganlynol o enau fy nhad, yr hwn a'i cadwodd ar gof dros dri ugain mlynedd. Ymddangosodd y tro cyntaf yn *Almanack* Mathew William, ond nis gwn pwy ydyw ei hawdwr, ac yn ol dim a wn i, ni argraphwyd hi byth wedi hynny hyd yn bresenol. Pan y byddo angen am ddefnyddiau o'r fath carwn i chwi ei gosod yn yr Ymofynydd.

Yr eiddoch yn gywir,

Mountain Ash. Thomas D. Llewelyn, *(Llewelyn Alaw.)*

Tôn.—"*Cheyvi Chase.*"

Pa ddull, Atheistiaid, d'wedwch hyn; y daeth gronynau mân,
Gan droi'r un fryd neu lynu 'nghyd i lunio byd mor lân;
Pan na bai'r tywod *lipia* sydd neu swn ystormydd gwynt,
Yn llunio temlau hardd eu gwedd neu drefydd hoywedd hynt?

Rhyfygus ddyn golyga'th hun: dy gorph mor burwyn yw,
A d'wed rhyw nod pa ddull erio'd y daethost yn fod byw;
Ple'r oedd ei fryd cyn llunio'r Byd na phlanu'r hyfryd Ardd?
Y Bore pur gorfreiniol lu adseinia hynny 'n hardd.

Pa fysedd all'sai wëu mor dde dy holl wythienau mân,
A llunio'th gorph mor hardd ei wedd mor luniedd ac mor lân?
A phwy rôdd synwyr yn dy iad, a chariad yn dy fron?
A phwy rôdd fywyd hyfryd hedd i'th galon luniedd lon?

Pwy wnaeth i'r gwa'd i fyn'd heb nâd o'r galon gloiaidd glyd,
Trwy hob rhyw ran o'r corph dinam, ag 'n ôl 'r un fan o hyd?
A phwy rodd i'r 'wyllys gwiw i'm symmud unrhyw ran,
A'r tafod fodd i draethu ar g'o'dd ei madrodd yn mhob man?

Pwy wnaeth i'r 'sgefain dynu heb ffa'l yr ana'l dyfal dwys
A'r amrant warcho y llygad llon rhag cael na pho'n na phwys?
Pwy rodd i'r clustiau swn heb wall er dyall yn mhob dyll,
A'r llygaid wel'd gwrthrychau heb wa'rdd by'd p'un ai hardd neu hyll?

Pwy wnaeth i'r baban gwiwlan gwel, yn dawel ac yn dyn,
I chwilio heb a'th am fron ddifrath i sugno'r lla'th yn llyn;
Pwy all fynegi eleni i'r wlad y cariad difrad dwys
Sy' gan y fam i'w mhaban gwan fod beunydd dan ei bwys?

Rhyw fawr ddoethineb yn ddiau a wnaeth y pethau hyn,
Nid natur ddall ond Duw 'n ddiwall wna'r naill a'r llall yn llyn;
Am hyn rho'wn glod tra byd yn bod i'r Undod* hynod hyn,
Angylion Nef clodforwch ef, a'r Ddâr a'ch llef yn llyn.

* Drindod yn y copi gwreiddiol.

YR IUDDEWON A'R AIPHTIAID.

"PAN alwyd ar Joseph i ymddangos gerbron Pharaoh, fe ddywedir iddo "eillio," ac ychwanega y cyfieithwyr Cymreig "ei wallt; *he shaved himself*, ebe y Saesoneg, gan feddwl, mae yn debyg, ei farf. Onid yw hyn yn ddyrys gan nad oedd y Dwyreiniaid yn arfer eillio, ac nad allai Hanun ddangos mwy o ddirmyg ar weision Dafydd nag eillio hanner eu barfau? Ydyw, ond erbyn edrych ar y darluniau, ni gawn fod yr Aiphtiaid, yn wahanol i'w cymydogion yn gyffredin, yn arfer eillio, ac yn eillio nid yn unig yr ên a'r wyneb, ond y pen hefyd. Felly pan alwyd Joseph i ymddangos gerbron Pharaoh, yr oedd moesau da yn galw am iddo gydymffurfio â defodau y wlad. Nid eillient pan mewn galar, ac am hyny yr ydym yn cael Joseph, er ei fod erbyn hyn yn nesaf i Pharaoh, pan fu farw ei dad, yn anfon at Pharaoh trwy ei "deulu";—ei weinidogion i ofyn caniatad i fyned i'w gladdu. Nid allai gan ei fod heb eillio ymddangos o flaen y brenin yn bersonol i ofyn y ffafr."

"Mae yn ymddangos fod llawer o'r cyfatebion yn cael eu hesponio gan amgylchiadau ag oeddynt yn gyffredin i'r ddau bobl (Iuddewon ac Aiphtiaid) fel rhai yn preswylio yr un wlad ac yn coledd yr un arferion. Yr oedd y Tabernacl i'w wneud o goed Sittim, yr un coed ag a ddefnyddid i wneyd y temlau Aiphtiaid; ond erbyn edrych nid oedd dim coed eraill i'w cael yn yr anialwch. Yr oedd yr Israeliaid i dorfynyglu yr aberthau, fel yr oedd yr offeiriaid Aiphtaidd yn gwneyd, ond beth allesid ddysgwyl yn amgen gan mai felly y byddai y ddau bobl yn arfer lladd pob creadur? Na fuasai y naill na'r llall yn meddwl am yr un dull arall. Yr oedd yr offeiriaid yn y ddau wasanaeth i fyned trwy eu gorchwylion wedi dyosg eu hesgidiau, a gorchudd ar eu pen. Beth yn fwy naturiol ymysg pobl a ystyrient mai felly y dylent ymddangos gerbron dynion y dymunent eu parchu, nag ymddangos yr un fath o flaen gwrthddrych eu haddoliad.—*O'r Traethodydd.*

IOAN x. 3.

Y MAE'R dernyn canlynol allan o *Hartley's Researches in Greece and the Levant* yn taflu goleuni ar eiriau Crist yn yr adnod uchod:—"Gofynais i fy ngwas a ydoedd yn arferiad yng Ngroeg i roddi enwau i ddefaid? Dywedodd wrthyf ei bod, a dywedodd wrthyf fod y defaid yn ufuddhau i'r bugeilydd pan y byddai yn eu galw wrth eu henw. Borau heddyw cefais gyfleusdra i brofi gwirionedd y sylw hwn. A mi yn pasio heibio i ddiadell o ddefaid, gofynais i'r bugeilydd yr un cwestiwn ag oeddwn wedi ofyn i fy ngwas, a rhoddodd i mi yr un atteb. Dywedais wrtho wed'yn am alw un o'i ddefaid. Gwnaeth hyny, ac yn union dyma ddafad yn rhoi heibio pori, ac yn gadael y defaid eraill, ac yn rhedeg i fynu at law y bugeilydd gydag arwyddion o bleser ac ufudd-dod parod o'r fath na welais i erioed mewn un creadur o'r blaen. Y mae yn wir hefyd am ddefaid y wlad hon, 'na's canlynant y dyeithr, eithr ffoant oddiwrtho oblegid nid adwaenant lais dyeithriaid.' Dywedodd y bugeilydd wrthyf fod llawer o'i ddefaid ef yn wyllt etto; nad oeddent etto wedi dysgu eu henwau, ond y buasent oll yn eu dysgu gydag amser. Yr oedd yn galw y rhai eraill a adwaenent eu henwau yn ddôf." (2 Sam. xii. 3.)

Y mae Polybius yn ei 12fed lyfr yn dywedyd, 'pan tiriodd dyeithriaid ar ynys Cyrnon er mwyn cario defaid ymaith i'r holl ddiadell ffoi ar unwaith;

sylwodd y bugeilydd ar hyn, a phan chwythodd yn ei gorn, rhedasant atto oll yn union. Nid yw yn syndod eu bod yn gwrando ar y sŵn hwn; oblegid nid yw y bugeiliaid moch yn dilyn y moch yn Itali fel yng Ngroeg, ond y maent yn myned dipyn bach o'u blaen, a phan byddont yn chwythu yn eu cyrn, y mae'r minteiau yn ymgynnull ac yn dilyn eu arweinyddion.' Y mae'r Caffriaid yn Africa wedi dysgu hyd yn oed ychain a gwartheg i ufuddhau i'w pibau. Gwelodd Schulz pan oedd ar ei deithiau, fugeilydd, yn agos i Nazareth, yn dwyn ar ei ol fwy na 200 o ddefaid, trwy chwythu yn ei gorn, ac wed'yn trwy gynnorthwy pib yn peri iddynt fyned trwy amryw ystrangeiau. Plygent benliniau y traed blaen, ac wed'yn am ychydig amser safent i fynu ar eu traed ol, ac yna syrthient ar eu corph â'u pedair coes yn blygedig tanynt."

RHAGORFRAINT YR YSGOL SUL.

A draddodwyd ger gwydd ysgol Sul Hen-dy-cwrdd, Aberdar, Hyd. 26ain, 1862.

Y MAE rhagorfreintiau yr ysgol Sul yn amlwg i'w canfod: ac y mae o fewn cyrhaedd y gwaelaf o ddynion i gael gafael yn y breintiau gogoneddus sydd ynddi; pa rai o'u iawn ddefnyddio a dueddant i lesoli dyn, ac i'w gyfodi fel bod rhesymol i stad uwch o ddefnyddioldeb ac hapusrwydd. Gwnant hyn trwy oleuo ei ddeall, a'i arwain ar hyd y ffordd i gyrhaedd rhinwedd a dedwyddwch, ac i ochelyd y llwybrau sy'n dirwyn i drueni. Ac felly arbedant ef rhag y gofid meddwl a gyfodai am nad allasai gyfranogi o'r addysgiadau a'r hyfforddiadau ag oeddent yn cael eu cynyg iddo yn rhâd—"heb arian ac heb werth."

Diammau y gellir dwyn amryfal brofion dros y daioni y mae yr ysgol Sabothol wedi ei wneud mewn byd ag eglwys, a hyny yn neillduol yn mysg y râdd weithgar; fel y mae llawer un, er eu clod, o fysg y cyfryw ddosbarth, wedi d'od i lanw sefyllfaoedd uchel, ac o gymeriadau disglaer a daionus, yn ddynion addas ac hyawdlaidd yn yr areithfa Gymreig yn y dyddiau presenol, trwy offerynoliaeth yr ysgol Sabothol.

Mynych y dywedir gan yr uchel ei feddwl a'r dysgedig, Pa ddaioni a ellir ddisgwyl i'r dosbarth gweithgar oddiwrth yr ysgol Sul? Tybiwyf y gellir ateb, fod llawer. Pe baem ni ddim ond troi ein golygon a gweled y lluoedd o blant gweithgar, yn enwedigol o gylch y gweithfeydd, sy'n ymddifad o addysg ac heb un gobaith y cant fwynhau manteision addysg ddyddiol, trwy eu bod yn gorfod myned, er cynorthwyo eu rhieni, i enill eu bara beunyddiol, a hyny gan wasgfeuon a chaledi yr amseroedd; ac yn aml fel mae y gwaethaf y modd yn dysgu llawer o anfoesoldeb ac anweddeidd-dra ag sy'n warth i glywed son am dano, diau canfyddem ei bod yn un o'r cynlluniau goraf tuag at addysgu y werin weithgar ag eraill fyddo dan ei haden, ag sydd yn bodoli y dyddiau presenol. Oblegid mae yn rhoi cyfleustra i'r cyfryw i ymofyn am wybodaeth yn yr ychydig oriau hamddenol sydd ganddynt. Y mae gormod o esgeulusdra a difaterwch yn gyffredin yn perthyn i'r bobl weithgar, ac hyd y nod rhai sydd yn cymeryd arnynt i broffesu pethau gwell, beth yw dybenion dydd gorphwys (neu ddydd Sul fel ei gelwir.) Treuliant hwnw yn ofered eu meddwl a'u chwantau bydol, ac yn esgeuluso eu dyledswyddau fel bodau rhesymol a dynion cyfrifol am yr hyn a wnant ac a ddywedant; — yn lle ceisio oblygu eu meddyliau at y pethau a berthynant i'w dedwyddwch moesol a naturiol. Canfyddem hyn yn mhellach pe baem ddim ond ystyried

y daioni, y lles, a'r cynnydd mae'r ysgol Sul wedi ei wneud yn ein cym'dogaeth ni ein hunain, yn enwedig yn mhlith cynulleidfa yr Hen-dŷ-cwrdd, fel ei gelwir. Y mae yn gofus gan rai o honom nad oedd ei chynydd na'i dylanwad ys ugain mlynedd yn ol (mwy neu lai) yn y lle hwn y pryd hwnw, ddim i'w gydmaru a'r peth ydyw yn bresenol. Mae ymdrech a diwydrwydd i'w weled yn fwy amlwg o'i phlaid yn mhlith henafgwyr a chanol oed, nag oedd y pryd hwnw, a'i effeithiau (i'm tyb i) yn fwy disglaer a chanfodadwy; er y dylem barchu coffadwriaeth ein hên deidau am eu gwroldeb yn trosglwyddo dylanwadau yr ysgol Sul i lawr i ni yn yr oes bresenol. Mae hyn yn galw arnom ninau, yn neillduol felly hên ag ifainge, i fod yn fwy effro, ag mor ymdrechgar ag y medrom, mewn amser ac allan o amser, gan adael heibio bob musgrellni, gan ddyfal barhau trwy gyrchu yn y blaen er ehangu yr egwyddorion mae yn gynwys, gan gofio y cyngor—" yn gwneuthur daioni na ddiogwn, canys yn ei iawn bryd y medwn oni ddiffygiwn."

Nis gallaf lai na chrybwyll un rhagorfraint neillduol a berthyn iddi yn ei chysylltiad âg addysg deuluaidd. Cyn ei hymddangosiad cyntaf, arferiad pob teulu braidd yn y rhan fwyaf o gymydogaethau Cymru, ar yr aelwyd fynychaf, oedd son am wrolgampau, ymladdfeydd dynion a cheiliogod, canwyllau cyrph, ysbrydion drwg, gwrachyribyn, a phob ofergoeledd o'r fath, nes dychrynu ac arswydo cymaint, fel yr oedd yn grêd gyffredinol fod yr holl drychiolaethau a soniwyd yn wirionedd diymwad. O bryd i bryd bob yn ychydig, trwy ddylanwad gwybodaeth y wasg, a chylchgronau Cymreig a Seisnig, a'r ysgol Sul mewn rhan, daeth dynion i weled ac i farnu drostynt eu hunain, nad oedd y drychiolaethau a soniwyd ond anwiredd a thwyll yn gyfangwbl; a gallaf fentro ddweud na chlywir y dyddiau presenol un gair o son am y cyfryw hudoliaeth a gwag ddychmygion yn un man. Dengys hyn fod gwawr well wedi torri, a phob tywyllwch a chaddug o'r fath, gobeithiaf, wedi diflanu a syrthio i ebargofiant tragwyddol.

A phwy a wyr nad oes yn ein plith ninau lawer Newton (un o'r athronyddwyr penaf a welodd y byd erioed), a Phriestley y beirniad a'r philosoffydd enwog, a Brunel, a Stephenson, pa rai a anfarwolasant eu henwau mewn celfyddyd; a Iolo Morganwg, y bardd a'r hynafiaethydd clodfawr, a lluoedd eraill a allaswn enwi, a lanwasant y pwlpit Cymreig, ac yn ei lanw y dyddiau presenol, yn mhlith Ymneillduwyr Cymru? Gan hyny mae yr alwad arnom ninau sydd yma yn bresenol i wneud ein gorau tuag at addysgu y rhai ieuange sydd yma dan ein gofal. Trwy hyny feallai deuant yn nhrefn Rhagluniaeth, i fod yn offerynau i ddwyn y byd i'w iawn drefn, a dwyn dynion i adnabod beth yw gwerth gwirionedd, ac i ymofyn am y syniadau hyny o un Duw a hwnw'n Dad, pa rai a weinyddant y cysur mwyaf i ddyn yn y byd hwn, ac ydynt yn addewid o gysur a dedwyddwch mewn byd gwell tu draw i'r bedd. Terfynaf gan ddymuno rhwydd hynt i'r ysgol Sabothol i fyned rhag ei blaen, nes enill dynion yn mhob cwr i'w charu a'i hamddiffyn; a dywedaf yng ngeiriau yr enwog fardd Nantglyn—

" Dalied ei enw dilwfr,
Hyd y dydd y redo dwfr,
Tra bo lleuad weladwy,
Seirian haul a sêr yn hwy."

Aberdar. EIDDIL CYNON.

NERTH A MAWREDD DUW YN GANFODADWY YN Y PETHAU LLEIAF.

Fe all yr hwn sydd yn caru myfyrio ar weithredoedd Duw, eu holrhain, nid yn unig yn y bydoedd mawrion sydd yn gwneuthur i fynu gyfundrefn y bydysawd, ond hefyd yng nghyrph lleiaf trychbryfaid, planhigion, a metaloedd. Gall gael allan ac addoli'r doethineb dwyfol yng ngwe'r còr, yn gystal ag yn y sugndyniad hwnw sydd yn cadw'r planedau yn eu cylch. Y mae'r ymchwiliadau yma yn cael eu rhwyddhau trwy ddefnyddio'r chwyddwydr *(microscope)*, yr hwn sydd yn dwyn i'n golwg fydoedd newyddion, er syndod ac edmygedd inni. Y mae'n ddiammheu y byddai'r rhai nad ydynt wedi cael cyfleusdra i ddefnyddio'r offeryn yma, i ddarllen gyda phleser ychydig bach o hanes y gwrthrychau a ddygir i'r amlwg trwyddo.

Sylwn yn gyntaf ar y byd difywyd. Edrycher ar y gwahanol fathau o fwsogl, ac ar y llysiau bychain aneirif y mae natur yn gynnyrchu. Edrychwn mor lliosog yw'r rhanau bychain, sydd yn gwneuthur i fynu y planhigion yma! Mor wahanol ydynt mewn ffurf ac ymddangosiad! Mor aneirif yw eu rhywogaethau! Ystyriwn y nifer aneirif o ranau mân â'r rhai y mae pob rhyw gorph yn gyfansoddedig, y rhai hefyd ellir eu gwahanu oddiwrtho. Os yw corph chwe-ochrog o fodfedd scwâr yn cynnwys cannoedd o filiynau o ranau gweledig, pwy all gyfrif yr holl ranau sydd yn gynnwysedig mewn mynydd? Os gellir crogi miliwn o lobynau *(globules)* o ddwfr oddiwrth flaen nodwydd, pa sawl un y dichon fod mewn ffynnon, mewn afon, mewn mor? Os oes mewn un eiliad amrant fwy o belydrau goleuni yn cael eu danfon allan oddiwrth un ganwyll nag sydd o ronynau o dywod ar yr holl ddaear, pa nifer ddichon fod yn cael eu danfon allan mewn awr oddiwrth dân mawr? Os yw gronyn o dywod yn cynnwys amryw filiynau o ddarnau o awyr, pa nifer raid fod mewn corph dyn? Os gellir rhanu un *grain* o gopr i filiynau o ranau heb gyrhaeddyd elfenau gwreiddiol natur; os gall corph peraroglaidd fygdarthu *(exhale)* digon o ddernynau peraidd i arogli yr awyr i bellder mawr, heb fod y corph yn colli dim o'i bwysi; byddai yn rhaid i'r meddwl dynol i gael tragwyddoldeb, dim ond i gyfrif nifer aruthrol y dernynau yma.

Os awn yn awr at y greadigaeth anifeilaidd, ehangir ein golygiadau yn annherfynol braidd. Yn ystod yr hâf, y mae'r awyr yn llawn o greaduriaid byw; y mae diferyn o ddwr yn fyd bychan, llawn o drigolion; pob dalen yn drefedigaeth trychbryfaid; a phob gronyn o dywod yn drigfan i dyrfaoedd o fodau byw. Y mae pob planhigyn, pob hedyn, pob blodeuyn yn meithrin miliynau o greaduriaid. Y mae'n rhaid fod pob dyn wedi gweled yr heidiau aneirif yna o wybed, o gylion, a thrychbryfaid sydd yn ymgasglu ynghyd i le bach. O'r fath luoedd aruthrol o honynt a raid fod yn byw, ac yn ymfwynhau, ac yn ffrwytho ac amlhau ar wyneb y ddaear, ac yng nghyfrwng annherfynol yr awyrgylch maith! Pa nifer o fyrddiynau o ddrychbryfaid, o abwyd, ac o ymlusgiaid, a raid fod yn ymlusgo ar wyneb y ddaear, neu a raid fod yn gynnwysedig yn ei mynwes! Nifer cymmaint nas dichon neb ei wybod ond Duw ei hunan! O mor ysplenydd ac amlwg yw ei allu Ef, pan y meddyliom am amledd y rhanau sydd yn ffurfio y creaduriaid bychain yma, am fodolaeth y rhai y mae y rhan amlaf o ddynolryw yn llwyr anwybodus! A allem ni ddychymmygu, oni bai ein bod yn cael ein sicrhau o hyny gan brofiad beunyddiol, fod creaduriaid yn bod, y rhai ydynt filiwn o weithiau yn

llai na gronyn o dywod, a bod i'r rhai hyn organau i feithrin, i symmud ac i genhedlu! Y mae esgyrn pysgod i gael mor lleied, fel nad ydynt wrth edrych arnynt trwy chwydd-wydr, ddim yn ymddangos braidd cymmaint a heiddyn; ac etto y mae yn y rhai hyn anifeiliaid byw, â llettŷau clud ganddynt, plygiadau a cheudodau y rhai ydynt yn ffurfio cynnifer o ystafelloedd. Bach, bach yw gwyddonyn, ac etto, er ei fod bron yn anweladwy wrth edrych trwy'r chwydd-wydr arno, ceir ei fod yn greadur blewog, perffaith yn ei holl aelodau, o ffurf reolaidd, llawn o fywyd ac o deimlad, a chanddo yr holl organau angenrheidiol iddo. Er fod y creadur hwn bron yn anweledig, y mae etto iddo ranau lawer y rhai ydynt yn llawer llai; a pheth sy ryfeddach byth, yw, nad yw'r gwydrau y rhai ydynt yn ein galluogi ni i gael allan cynnifer o ffaeleddau ac ammherffaithderau yng nghynnyrchion mwyaf perffaith dynolryw, ddim ond yn dangos yn fwy amlwg drefnusrwydd a pherffeithrwydd y creaduriaid bychain yma. O! mor anamgyffredadwy o fain yw edau'r corryn. Y mae's wedi cyfrif na fyddai un fil ar bymtheg ar ugain o honynt ddim mwy nag edefyn o edau gwnïo cyffredin. Y mae pob un o'r chwech diden *(papillæ)*, o'r rhai y mae'r corryn yn tynu'r gwlybwr hylud *(glutinous)* y mae'n ffurfio ei wê âg ef, yn gyfansoddedig o fil o fandyllau bychain, trwy'r rhai y mae cynnifer a hyny o edefynau yn passio, ac felly y mae pob un o edafau'r corryn yn gyfansoddedig o chwe' mil o edafau llai.

Er cymmaint yr ymddengys y rhyfeddodau yma, y maent yn llawer llai na'r rhai a ddarganfyddid genym, pe byddai bossibl i ni i gael chwydd-wydrau mwy nerthol; ac hyd yn oed wedi'n nis gallai byth gyrhaedd terfynau'r greadigaeth, er fod ein chwydd-wydrau yn mwyhau gwrthrychau lawer o filiynau o weithiau yn fwy nag y maent yn awr. Po fwyaf y myfyriom ar weithredoedd Duw, mwy fwy fydd profion ei allu yn cael eu amlhau. Yr ydym yn cael ein dyrysu rhwng dau eithafig natur, y mawr a'r bach; a braidd yr ydym yn gwybod pa un ai i edmygu y Creawdwr yn fwyaf yn y bydoedd mawrion sydd yn rholio yn ddisglaer yn y nefoedd, ai ynte yn y cynnyrchiadau bychain yna y rhai ydynt ymron bod yn anweledig i'n llygaid.

Bydded inni ynte, o hyn allan, i gyfrif yr ystyriaeth o weithredoedd Duw fel ein gorchwyl mwyaf hyfryd. Caiff y drafferth a gymmerwn yn yr olrheiniad o honynt ei gyflawn wobrwy yn y pleserau pur a diniwed a gynnyrchir ganddynt. Crëant ddymuniad gwresog ynom am dirio yn yr ardaloedd bendigedig hyny, lle ni bydd dim angen arnom am chwydd-wydrau na phelldrychau, i ddarganfod holl ryfeddodau Duw; lle bydd i'w holl weithredoedd i gael eu gosod ger bron ein llygaid mewn harddwch dadlenedig, a lle gallwn ganfod ymhob gwrthrych, ei berthynasau, ei gyfansoddiad, a'i ddiben; lle bydd emynau mawl yn cael eu dadganu gan ysprydoedd anfarwol, mewn clod i Greawdwr y bydysawd; a lle bydd pob gwahaniaeth mawr a bach wedi ei golli mewn un cyfangwbl mawr, yr hwn a leinw ein heneidiau â llawenydd a chariad ac edmygedd.

Tachwedd 22ain. C. C. Sturm.

"Pa fwyaf onest y byddo dyn, lleiaf i gyd y mae yn cymmeryd arno ei fod yn saint." Sullivan.

"Pedwar peth na ddychwelant yn ol, y gair wedi ei lefaru; y saeth wedi ei ddanfon o'r bwa; y bywyd wedi terfynu; a'r hamdden wedi ei esgeuluso." Omar.

Y mae'r rhai sydd yn ein ceryddu yn fwy cyfeillion i ni na'r rhai sydd yn ein gwenieitho. Pythagoras.

ANNERCH AT AELODAU EGLWYS LOEGR,

Ac at Drindodiaid Protestanaidd yn gyffredinol, i'r diben i'w hannog hwynt i droi oddiwrth yr addoliad gau o Dri o bersonau, i'r addoliad o'r Un Gwir Dduw.

YN SAESONEG GAN W. FREND.

"Chwychwi ydych yn addoli y peth ni wyddoch."—Ioan iv. 22.

Frodyr,—Dioddefwch i mi eich annerch ar bwngc o'r pwys mwyaf i bawb ag sydd yn credu yn ddifrifol yng Nghrist. Yr wyf yn sylwi fod amryw o honoch bob seithfed dydd, yn cyrchu i ryw le ag sydd wedi cael ei neillduo at addoliad crefyddol. Yr ydych yn proffesu eich bod yno yn offrymmu gweddiau i'r Bod a grëodd y bydoedd. Pa beth bynag a eill fod y gwahanol arferion a chyfreithiau ag sydd yn eich lleoedd gwahanol o addoliad, yr ydych yn tybied eu bod wedi eu sylfaenu ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Yr ydych yn meddwl na ddylai un peth a fyddo yn groes i'r Ysgrythyrau hynny gael ei ganiatau yn eich addoliad. Yn ddiammeu gan hynny, fe weddai i chwi, bob amser, brofi eich opinivnau, i edrych a ydych mewn gwirionedd yn addoli y gwir Dduw, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, neu ynte ddrychiolaeth o'ch dychymmyg eich hunain.

A ydych, gan hynny, yn addolwyr Duw, neu nid ydych? Gofyniad prysur ydyw ef. Bydded i ni attolwg arnoch roddi munud o ystyriaeth i'r pwngc. Y geiriau a arferodd Crist, mewn ateb i'r Iuddew ag oedd yn ymofyn am y gorchymyn cyntaf, a eill eich cynnorthwyo. "Gwrando, O Israel, yr Arglwydd ein Duw un Arglwydd yw; a chân yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth. Hwn yw'r gorchymyu cyntaf," Marc xii. 29, 30. Yr wyf yn eich dwyn chwi i'r prawf hwn; a ydych yn addoli y Duw hwnw am yr hwn yr oedd Crist yn llefaru, neu nid ydych? Os nad ydych, Crist ei hun sydd yn dwyn tystiolaeth yn eich erbyn, nad ydych yn ddysgyblion iddo ef. I wybod a ydych yn diystyru eich Iachawdwr neu beidio, y mae yn rhaid i chwi ystyried pwy yw y Duw, am yr hwn yr oedd Crist yn llefaru.

Cyn y byddo i mi ystyried y pwngc hwn, bydded i mi grybwyll wrthych yr hyn a welais, neu a glywais, yn eich lleoedd addoliad. Yn yr eglwysydd sefydledig, y mae ffurf o weddi yn cael ei harfer, yn yr hon y mae'r geiriau canlynol:—"Duw Fab Prynwr y byd—Duw Yspryd Glân—Y gogoned lân fendigaid Drindod, tri Pherson ac un Duw, trugarha wrthym wir bechaduriaid—Crist clyw nyni—Iesu Fab Dafydd, trugarha wrthym—Yn rasol clyw ni O Arglwydd Crist;" ac mewn amryw leoedd o'r cyffelyb, gweddiau sydd yn cael eu cyfeirio at Grist, at yr Yspryd Glân, ac at y Drindod. Mewn amryw o'r lleoedd addoliad ag sydd yn perthynu i'r Ymneilldnwyr hefyd, gweddiau ydynt yn cael eu hoffrymu i fynu at Iesu Grist, at yr Yspryd Glân, ac at y Drindod.

Yn awr, frodyr, os nad yw Iesu Grist yn Dduw, os nad yw yr Yspryd Glân yn Dduw, os nad yw y Drindod yn Dduw, yr ydych yn euog o dorriad gorchymynion Crist trwy weddio arnynt; ac os ydych yn gweddio ar y rhai hyn oll, yr ydych yn cyfeiliorni yn fawr, oblegid Iesu Grist a ddywedodd wrthym, "Yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw;" ac i'r un gwirionedd mawr y mae Moses a'r prophwydi, a'r apostolion yn dwyn tystiolaeth. Och! yr ydych yn addoli duwiau eraill heblaw y gwir Dduw, gan anghofio yr hyn a ddywaid yr Ysgrythur, sef, "Nac ymgrymma iddynt, ac na addola hwynt."

Am bwy yr oedd Crist gan hynny yn llefaru? Y geiriau a gymerwyd allan o Deut. vi. 4, ac o'i gyfieithu yn llythyrenol ydynt fel hyn—"Jehofa ein Duw un Jehofa yw." Jehofa yw'r enw wrth yr hwn y gwnaeth Duw ei hun yn adnabyddus i Moses, Jehofa a greodd y nefoedd a'r ddaear; Jehofa a alwodd Abraham—a lafarodd wrth Moses—a'i dadguddiodd ei hun i'r prophwydi—a addolwyd gan y genedl Iuddewig. Jehofa sydd yn cyhoeddi mai un ydyw, trwy yr holl Hen Destament, ac nad oes Duw ond efe: plant Israel tra yr oeddynt yn ufuddhau iddo, oeddynt yn ei addoli ef fel yr un a'r unig wir Dduw; a phan fyddent yn cymysgu â'r addoliad o'r Jehofa, yr un o eulunod, yr oeddynt yn cael eu dwyn i'w iawn bwyll trwy gospedigaeth sarrug. Pan bregethodd Crist i'r Iuddewon, eu gwrthddrych o addoliad oedd Jehofa; am dano

ef hefyd y dygodd Crist dystiolaeth, mewn modd eglur, mai efe yw yr unig wir Dduw, nad oes neb da ond efe; mai efe yw ei Dduw a'i Dad ef, a bod Jehofa ei Dad yn fwy nag efe. (Ioan xvii. 3; Mat. xix. 17; xi. 25; Ioan xx. 17; xiv. 28.)

Yr ychydig destunau hyn o'r Ysgrythyr, mi allwn dybied, ydynt yn ddigonol i argyhoeddi unrhyw feddwl di-ragfarn, o fod y rhai ag sydd yn offrymmu gweddiau i fynu at Iesu Grist, at yr Yspryd Glân, neu at y Drindod, yn dra beius: ond yn gymmaint a'ch bod wedi ffurfio y fath dduwiau dychymmygol i chwi eich hunain, heb unrhyw sylfaen o'r Ysgrythyr, bydded i ni ystyried pob un o honynt yn wahanol.

Yn gyntaf, am *Iesu Grist*. Iesu Grist, medd un o'r apostolion wrth yr Iuddewon, oedd §"Wr profedig gan Dduw yn eich plith chwi, trwy nerthoedd, a rhyfeddodau ac arwyddion, y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef yn eich canol chwi, megis ag y gwyddoch chwithau; hwn wedi ei roddi trwy derfynedig gyngor a rhagwybodaeth Duw, a gymerasoch chwi, a thrwy ddwylaw anwir a groeshoeliasoch, ac a laddasoch; yr hwn a gyfododd Duw, gan ryddhau gofidiau angau; canys nid oedd bosibl ei attal ef ganddo." Drachefn, ‡"Yr Iesu hwn a gyfododd Duw i fynu; o'r hyn yr ydym ni oll yn dystion——Am hynny gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel, ddarfod i Dduw wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi." Mi ddewisiais y testunau hyn o fysg amryw eraill, am eu bod yn rhoddi hanes eglur o'n Iachawdwr; gwahaniaeth amlwg sydd yma rhwng Duw a Christ; Crist yn gwneuthur rhyfeddodau, ond trwy allu Duw, trwy gyngor a rhagwybodaeth Duw, (neu ei ganiattad ef) y cafodd ei roddi i ddwylaw yr Iuddewon a'i ladd. Duw a'i cyfododd ef i fynu o feirw—Duw a'i gwnaeth ef yn Arglwydd ac yn Grist.

Pa fodd gan hynny y dywedweh mewn gwrthwyuebiad amlwg i'r Ysgrythyrau, a synwyr cyffredin, mai Duw yw Iesu Grist; heb wneuthur dim gwahaniaeth rhwng y Bod mawr oedd yn danfon, a'r dyn oedd yn cael ei ddanfon; rhyngddo ef ag sydd yn gwybod pob peth, a'r dyn a ddywedodd nad oedd ef yn gwybod pob peth; (Mat. xxiv. 30.) rhwng yr hwn sydd Dduw a Thad Iesu Grist, a'r Iesu hwnnw, yr hwn a ddywedodd fod ei Dad yn fwy nag ef. (Ioan xiv. 28.)

Defnyddiwch synwyr cyffredin. A eill Duw orwedd ynghroth gwraig? A eill Duw drengu ar groes? A eill Duw gael ei gladdu mewn bedd? Tybiau arswydus! Frodyr chwiliwch drosoch eich hunain. Na fydded i neb eich twyllo, trwy liw o ostyngeiddrwydd, i roddi addoliad i neb ond i'r un gwir Dduw, canys "efe yn unig a wasanaethi," Mat. iv. 10.

Yn ail, am yr *Yspryd Glân*. Ein teidau a feddylient, ac, hyd y dydd hwn, amryw o'r bobl anwybodus mewn llawer o wledydd a feddyliant, fod dyn yn cael ei wneuthur i fynu o ddau ddefnydd gwahanol; un ag ellir ei weled a'i deimlo; y llall na's gellir ei deimlo. Pan fyddo dyn yn marw, y maent yn meddwl fod y ddau ddefnydd hyn yn cael eu gwahanu oddiwrth eu gilydd; a'r corph yn cael ei osod yn y ddaear; a'r yspryd, oblegid felly y galwant y rhan arall, yn ehedeg oddiamgylch y lle. Oddiwrth y dŷb hon, llawer o chwedlau anwireddus a ddywedir am yspridion mewn monwentydd; ac yr ydys yn arferol o ddywedyd am ddyn a fyddo marw, ei fod yn rhoddi i fynu yr yspryd. Ni fu y Papistiaid yn ddiffygiol o wneuthur defnydd o'r chwedlau ffol hyn i ddibenion drwg, oblegid y maent yn dywedyd fod yr yspryd yn cael ei boeni dros amryw flynyddoedd mewn lle a alwant *Purdan*. Y gair Groeg yn yr Ysgrythyrau ag sydd yn arwyddo *yspryd*, neu *wynt*, neu *anadl*, sydd yn fynych yn cael ei gyfieithu *yspryd* (**Ghost*.) Ond pa le bynnag y mae y gair wedi ei gyfieithu felly, y mae yn cael ei gymhwyso at Dduw, yn yr un modd ac y mae yspryd dyn i ddyn. Pan ddywedoch fod yspryd dyn yn dawel neu yn afreolus, nid ydych yn meddwl fod y dyn yn fod neu berson gwahanol oddiwrth ei yspryd. Yn yr un gyffelyb fodd, wrth lefaru am Dduw ni ddylid tybied fod Duw a'i Yspryd yn Fodau neu Bersonau gwahanol. Eich annerchion i'r Yspryd Glân ydynt heb unrhyw sail yn yr Ysgrythyr, ac y maent yn cael eu gwahardd yn gaeth trwy y gorchymyn cyntaf, "Na fydded it' dduwiau eraill ger fy mron i."

§ Act. ii. 22—24, 32. ‡ Act. ii. 36.

* Lledrith yw y gair Cymraeg sydd yn atteb i'r gair *Ghost* yn y Saesonaeg, *Yspryd* yn wastad y cyfieithwyd i'r Cymraeg; ond yn Saesonaeg y mae yn cael ei osod i lawr weithiau *Ghost*; *Spirit* y dylai fod, medd dysgedigion, yn wastad.

Yn drydydd, am y *Drindod.* Gair nad yw i'w gael yn yr Ysgrythyr, yw y Drindod; a'r dyb sydd yn cael ei glymu wrtho yn eich credo, o dri pherson, a phob un o honynt yn Dduw, ac etto nad oes ond un Duw, sydd afresymol hollawl. Ac a fydd i chwi, fy mrodyr, fyned i bresennoldeb y Duw Goruchaf, i gymeryd arnoch ei addoli ef; ac etto ar yr un amser yn rhoddi iddo enwau o ddychymmygion siaradwyr ofer a drygionus. Ystyriwch—Nid oes ond un Duw, a'i enw yn un, a'i ogoniant ni rydd efe i arall.

Chwi ddywedwch o bosibl, ddarfod i mi ddethol y testunau hynny yn unig, ag sydd yn ffafrio fy opiniwn, ac esgeuluso eraill ag sydd yn profi fod Iesu Grist yn Dduw. Y mae yn ddigonol i mi sylwi, na all yr Ysgrythyr ei gwrthwynebu ei hun. Wrth chwilio fe geir gweled nad yw y testunau, trwy y rhai y cawsoch eich hudo (ac y cefais innau unwaith fy hudo trwy ragfarn dygiad i fynu, &c.) i gredu fod Iesu Grist yn Dduw, yn dysgu y fath beth. Chwiliwch yr Ysgrythyrau. Dangosweh un testun yn yr hwn y darfu i Iesu Grist ddywedyd ei fod ef yn Dduw. Dangoswch un yn yr hwn y dywedodd ei apostolion ei fod yn Dduw.‡ Mewn peth o gymmaint bwys nid yw yn gymmwys i chwi gasglu oddiwrth y testun hyn neu'r testun arall, yn cael eu cam-ddehongli, ei fod ef yn Dduw: ond fel ac y dywedodd ef yn bendant, ei fod ef ei hun yn îs na Duw, credwch ei eiriau ef; ac fel y gorchymynodd ef, Addolwch y Tad yn unig, a hynny mewn yspryd a gwirionedd.

Feallai y dywedwch fod amryw o ddynion duwiol a dysgedig wedi marw yn eich ffydd Y fath ddynion hefyd a geir ym mysg y Papistiaid a'r Paganiaid; etto ni ddywedwch chwi ddim, oherwydd hynny, fod y grefydd Babaidd yn wir, na bod yn ofynol addoli delwau.

Feallai y dywedwch fod yn ddigonol i chwi ganlyn crefydd eich tadau, heb un ymofyniad yn ychwaneg. Pe buasai eich tadau, ol yn ol yn gwneuthur felly, pa beth a fuasai crefydd y wlad hon yn bresennol? Tri chant o flynyddoedd a aethant heibio yr oeddynt yn cael eu gorchuddio gan anwybodaeth a Phabyddiaeth; rhai cannoedd ymhellach yn ol yr oeddynt yn eilun-addolwyr ffiaidd. Ar yr egwyddor hon ni chawsai Crist a'i apostolion neb gwrandawyr. Na chymmerwch eich twyllo frodyr; peth personol yw crefydd. Y mae y Bibl yn agored i chwi, oddiyno y mae i chwi ffurfio eich opiniynau, ac nid oddiwrth dybiau eich tadau, nac arferion yr amseroedd.

Feallai y dywedwch fod y pethau hyn yn ddirgelwch, ac nad ydych chwi ond anwybodus. Frodyr, i bwy y pregethodd Crist? Onid i'r tlodion? Onid i'r annysgedig? Ai nid o fysg y rhai mwyaf isel-radd yr oedd ei ddisgyblion? A gredodd y gwyr mawr, na neb o'r llywodraethwyr a'r Phariseaid ynddo ef?‖ Yr amseroedd hyn sydd gyffelyb i'r amseroedd y pregethodd Crist ynddynt. Nid yw y cyfoethog a'r dysgedig yn fwy tebygol i ddyfod yn ddisgyblion iddo yn awr nag oeddynt y pryd hynny. Mewn perthynas i'r dirgeledigaethau yr ydych yn dywedyd am danynt, cofiwch fod dirgelwch yn arwyddoccau rhywbeth cuddiedig; dadguddiad yn arwyddoccau eglurhad o'r hyn oedd guddiedig, ac anadnabyddus.† Nid oes dim dirgeledigaethau yng nghrefydd Iesu Grist: ei efengyl ef sydd amlwg, syml, ac eglur. Ac y mae hyd yn oed "dirgelwch yr anwiredd," yr hwn a ddechreuodd weithredu yn amser yr apostolion, ac sydd yn gweithio hyd yn hyn, gan gadw cenhedlaethau Ewrop mewn caethiwed, yn ddigon adnabyddus i bob meddwl ymofyngar.

Chwi ddywedwch o bosibl, y bydd i chwi golli y lleshad o addoliad cyhoeddus, trwy dderbyn fy syniadau i am y Gwir Dduw. Yn sicr na ddarfu i'r saith mil, a wrthodasant blygu eu gliniau i Baal, addoli yn nheml Baal. Addoliad cyhoeddus sydd yn beth tra dymunol, ond er mwyn gweddi gyhoeddus nis gallaf ddim addoli eilun. Frodyr, yr wyf yn eich galw oddiwrth wrthddrychau gau o addoliad. i addoli

‡ Yn ol y cyfeithiad presennol o'r Testament Newydd, y mae Crist mewn bagad o leoedd yn cael ei alw yn Dduw; ond y mae amryw o ddysgedigion wedi sylwi nad yw Crist, yn ol y copiau goreu a henaf, a'r cyfeithiad cywiraf, yn cael ei alw yn Dduw yn un lle trwy y Testament Newydd; er y gallasai ef gael ei alw felly mewn ystyr iselach, heb fod hynny yn unrhyw brawf o'i fod ef yn wir a goruchaf Dduw. Moses a elwir yn dduw, Ecs. vii. 1. *See Lindsey's Sequel, p.* 138, &c.

‖ Ioan vii. 48 † Marc iv. 22; Col. i. 26.

y gwir a'r bywiol Dduw. Os bydd i neb ag a ddarlleno yr annerch hwn, gredu gyda mi, mai un Duw sydd, sef Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Yr wyf yn galw arnynt i adael y temlau lle mae gwrthddrychau gau yn cael eu haddoli. Wrth y lleill yr wyf yn dywedyd gyda'r apostol, Holwch chwi eich hunain, a ydych yn y ffydd, ac os bydd i'ch ymofyniad eich tywys i'r gwirionedd mawr hwn, mai Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yw yr unig wir Dduw, yr wyf yn dywedyd wrthych, gyda'r Ysgrythyrau, "Addolwch Ef yn unig."

Jesus College, Cambridge, Sept. 10, 1788. W. FRend.

Gohebiaethau.

SYLWADAU

ar ddwy ysgrif yn rhifyn Hydref: "Y mae yn sicr o fod yn iawn," a "Phwy fydd gadwedig."—Tud. 225 *a* 232.

At Olygydd yr "Ymofynydd."

Mr. GOL.,—Er fy mod yn wrthbleidiwr i chwi etto wyf un sydd yn chwenych darllen y ddwy ochr i'r ddalen, ac heb fod yn ddifater am y gwir; ac y mae ynwyf yn gyffredin gryn awydd am weled yr *Ymofynydd* yn dyfod i law pan fyddo dyledus. Gwedi derbyn eich diweddaf a bwrw fy ngolwg dros gynnwysiad ei hysbysslen, tueddwyd fy sylw at y ddwy ysgrif—"Y mae yn sicr o fod yn iawn," a "Phwy fydd cadwedig;" a chyda gryn ddyddordeb brysiais i'w darllen er dyfwyno fy nyfrydedd, ynghyd a thynu oddiwrthynt ychydig faeth er adeiladaeth i'm meddwl gwan ac anghenus. Ond och fy siomedigaeth ynddynt: yn lle bara cefais gerrig; yn lle pysgod cefais yscorpionau. Dau gwestiwn agos iawn at feddwl pob Cristion ystyriol yw—Beth sydd *iawn*, a beth a'i *ceidw*. Ac ni ddylit rhoddi na byrbwyll dderbyn atteb ysgafn a disail iddynt. Etto pe ei attebit gan Fydolddyn *(secularist)* mai cydwybodoldeb dyn sydd iawn, ac mai hyny a'i ceidw, ni'm synnit. Ond pan glywaf un o syml weision yr Iesu yn hòni hyny, nis gallaf lai na synu, ac yr wyf yn parhau i synu gan ryfeddu pa fodd y gallodd dyn mor bwyllog, synwyrol, a dysgedig ag yw E. W. L. fod yn euog nid yn unig o'r fath wyredd a gwrthuni, ond hefyd o'r fath anghysondeb.

Megys y ddoe y dywedodd (a hyny gyda chymhwysder) yn yr *Ymofynydd*, eiriau (os nid hollol) i'r effaith hyn—sef, na ddylid ystyried y gydwybod fel yn ddilys brawf o gywiredd cred nac iawnedd ymarwedd, ac y galla dyn fod yn hollol gydwybodol pan yn meddiant y camsyniad mwyaf dinystriol; ac heddyw, megys y dywed, mai cydwybodoldeb yn anwahanol yn sicr sydd iawn, a dilys ynmod ein cadwedigaeth a'n cymmeradwyaeth gyda Duw! Buaswn ddystaw oni bai fod enbydrwydd ofnadwy yn yr athrawiaeth olaf yma; ac am hyny gosodais fy wyneb i'w herbyn, ac hyderaf nad wyf ond un o lawer gwedi arwyddo hyny i chwi. Ac nis gallaf ddyfalu pa fodd y gallodd E. W. L. roddi benthyg ei law hyd nod fel cyfieithydd i'r gosodiad a ganlyn, pa un a ddyfynwn o'i ysgrif yn eich rhifyn diweddaf, a pha ran sydd sampl deg o'r oll o honi.

"Rhaid fod Duw yn caru y cyfryw sydd yn ymdrechu a'u holl egni i ryngu ei fodd, pa mor gyfeiliornus bynag y dichon eu bod ynghylch y ffordd neu y modd y maent yn ymdrechu ei foddio, &c." Rhaid addef fod rhywbeth ag sydd swynol yn y gosodiad enbyd hwn, ond gan nad pa mor olygus a boddus bynag y byddo ar yr olwg gyntaf; etto i argyhoeddi hyd nod plentyn o'i wyredd a'i hyll wrthuni, ni bydd eisieu ond i'w gydosod â'r geiriau hyn o eiddo'r Iesu, lle y dywed—"Y mae yr awr yn

dyfod pan bydd a'ch erlidiant, gan feddwl eu bod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw;" yr hyn, yn ol y gosodiad uchod, sydd o angenrheidrwydd *yn iawn*, a rhaid i Dduw eu caru am hyny; ac etto, enghraifft mwy pendant yn Paul, yr hwn dan ei enw a gawn ei weled yn ei aidd mawr, yn ol sel Duw a chydwybod, yn erlid eglwys Dduw; yr hyn yn ol E. W. L. *sydd iawn*, a rhaid i Dduw ei garu am hyny, ac yn well na phe buasai heb wneuthur dim neu hyny! Onid ydyw yn sŷn pa fodd y gallodd E. W. L. ddodi ei law hyd nod fel cyfieithydd wrth y fath ffoledd cyfeiliornus, ac onid ydyw y th wyredd a gwrthuni yn dynoethi ei hun, ac yn sicrhau iddo ei hnn ei sarhad priodol? Ond fel diangfa feallai y myn E. W. L. ddywedyd nad yw'r *iawn hollol (absolute)* yn wybodadwy i ddyn. Wel, pe felly, onid ynfydrwydd o'r mwyaf fyddai ystyried cydwybodoldeb yn anwahanol fel y cyfryw? Etto gofynwn, ai iawn i Paul yn ol cydwybod erlid eglwys Dduw? Ettyb ysgrif E.W.L. mai, hyd ei argyhoeddiad. Ond onid yw y possibilrwydd o argyhoeddiad ei gydwybod yn profi ei chamwri yn ei chyntaf? Nis gellir uniawni'r iawn, ac nis gall yr *un* fod yn iawn ac *an*iawn ar yr un pryd. Gwir nas gallwn brofi da na drwg moesol ond drwy gyfrwng y gydwybod; ond y peth sydd i'w hynodi yw, y gall yr un weithred drwy y gydwybod fod yn ammod o brofiad neu deimladau hollol wrthwynebol *(opposite)* i'w gilydd; neu gall dwy weithred hollol wrthwahanol, megys da a drwg moesol, gynnyrchu drwy y gydwybod yn yr un fynwes fel canlyniad, yn hollol yr *un* deimlad neu brofiad! Dyma ffaith wir bwysig a theilwng o sylw pob dyn; ac yr wyf o'r meddwl pe telit y sylw priodol i'r ffaith hyn y dadhenuddid yn hawdd yr hoced rhy gyffredin o ystyried cydwybodoldeb fel dilys ammod cadwedigaeth dyn a chymmeradwyaeth gyda Duw.

Nid oes un maes a rydd y fath gyfleusdra i hudoliaeth y meddwl dynol a'r *moesol*, a hyny o eisieu gwahaniaethu yn ddigonol rhwng da a drwg; fel y penderfynir eu cymmeriad y cyfryw trwy y dyb, y gred, neu gydwybod, a da a drwg fel ag y maent yn hollol a gwirioneddol y cyfryw. Ac yr wyf o'r meddwl, Mr. Gol., y byddai o fudd ac o anghydmarol gymhwysder pe ymgymerai duwinyddion yr oes âg astudio yn fwy natur y *moesol*, ynghyd a natur ac ansawdd y gydwybod. Ac yr wyf o'r meddwl, pe gwnelit hyny i bwrpas y gwelit fod cydwybodoldeb eithafol yn hollol wrthgadwedigol, os rhoddir ystyr ymarferol, sylweddol a phersonol i'r gair: a meddyliaf mai yn y ffaith bwysig hon y cymer Cristnogaeth ei hachlysur ynghyd ag ystyr ei chenadwri; ac er hyny feallai nad oes fwy, na mwy cyffredin camsynied yn digwydd i Gristnogion nâ'u camgymmeriad o Gristnogaeth am ddwys-gydwybodoldeb, ac i ba gamsyniad y tuedda Undodiaid, tybiaf fi, cyn rhwydded â neb Cristnogion, gan y cymmeraf eu bod hwy yn ystyried Cristnogaeth ond fel cynnrych [*model?*] efelychiad dyn trwy fywyd cyffredin, a phossibl dan unrhyw gyfundrefn *(polity)* wladol neu arferiad (*habit*) bywyd. Meddyliaf i'r Iesu amcanu at rywbeth uwch nâ hyn, pa un ai cyrhaeddws ei amcan ai peidio.

Ond gan nad p'odd am hyn, nis gallwn fod mewn amheuaeth o wyredd a gwrthuni athrawiaeth E.W.L. ag M., yn eich rhifyn dyweddaf,—yr hon er mor ddisail a duedda i dywys yr anwybodus i gamsyniadau o'r fath enbydaf. Onid sŷn gamsyniad fyddai ystyried y gydwybod yn anwahanol, fel sier safon iawn foes a gwir rinwedd—ei hystyried yn anwahanol fel anffaeledig ac uniongyrch fynegfys

Duw, at wir iawnedd moes a rhinwedd,—ystyried y weithred fel yn ungymmeriad â'r amcan a'i cynnyrcha, neu'r amcan fel yn cyfiawnhau y weithred? Onid o'r fath sŷn gamsynied a hyn y tarddodd yr arwiredd *(axiom)* Babaidd ddieflig hono—"yr amcan, (*end,*) a gyfiawnha y moddion?" A phwy all gofio yr afonydd o waed gwirion, y miloedd bywydau diniwed a aberthwyd i gynddaredd cydwybod gwedi ei hysu gan ddall-sêl, ddeilliedig o'r hyll a'r sŷn gamsynwers gythreulig hon! Dyma ben orau y gau-ymsyniad ag sydd trwy yr oll o ysgrifau E. W. L. a M. Etto, Mr. Gol., na feddyliwch wrth hyn fy mod i yn ceisio dibrisio cydwybodoldeb mewn dyn. O na, hyderaf nad wyf lai ystyriol nâ hwythau o brydferthwch a dymunoldeb gonestrwydd ymarferol neu gydwybodoldeb mewn dyn. Ac er yr edmygaf fel hwythau y gydwybod *wir* oleuedig, etto dywedaf, gwareded Duw fi rhagddi pan fyddo hi gares i anwybodaeth a phenboethni. Onid hi yn aml yn ei dallineb, a awchodd y cledd, a lymodd y bicell, a hyny i ladd amryw o oreuon daear? Ac onid hi yn ei hanwybodaeth a laddodd "y cyfiawn hwnw," ac a ymdrechodd lindagu'r gair fyrdd o weithiau? Bu miloedd yn eu hanneall, mor gydwybodol yn eu camsyniadau fel y rhoddasant eu bywydau drosti, a hyny dan ganu. Ond a ystyriwn ei camwri yn llai o hyny? Na ato Duw. Nid yw didwylledd dyn yn lleihau ei gamsynied, nac yn cyfnewid y canlyniad yn y pendraw. "Y mae ffordd a dybir ei bod yn uniawn yngolwg dyn; ond ei diwedd yw ffyrdd marwolaeth." Nid all ein dall-dybiau ni gyfnewid ffeithiau, na gwneud y cam yn gymhwys, "o herwydd pwy a gymhwysodd y peth gamodd Duw?"

Saif yr iawn fel Duw ei hun, yn ddianwadal; ac ni chyfaddawd fyth, a'i ffurf yn fyth gydffurf â'r gwir fel ei ceir yn rheswm coeth ac yn Nuw. Nid Tyb—nid tŷ a meddiant arno a wna'r tro—ond a fyddo gwedi ei seilio ar y graig. Gwyn ei fyd y byddo ei gydwybod yn cyd-dystiolaethu â'r Gwirionedd, ac felly, yn *an*argyhoeddadwy. Amrywia y gydwybod, o dda, hyd ddrwg; ond y Gwir sydd un trwy bob peth. Gall fod hudoldeb y meddwl dynol y cyfryw, fel yr ymddengys ei gydwybod i bob dyn fel ei wir oleuni—ei fwyaf—ei benaf—ei Dduw. Pan mewn gwir ni byddo ond ei wir dywyllwch—ei warth—ei Ddiawl. Gochelwn gamddeall y gydwybod. Onid truenusrwydd y byd crefyddol bob amser etto yw—nid cymaint y camsynied—a bod y werin mor gydwybodol *yn* eu camsynied? Ac onid hyn heddyw yw prif rwystr y Gwir, a pherygl ei wir eiddunwyr?

Dwli yw, i ni sydd yn credu mewn adgyfodiad, a chyfiawn farn gyffredinol, ddywedyd mai ymddygiad cydwybodol dyn yn ol y goleuni fyddo ynddo, gan nad pa mor gyfeiliornus bynag y byddo, sydd yn sicr o fod yn iawn. Gwrthuni yr ymsyniad sydd mor amlwg; oherwydd pa fodd y gall y cyfeiliornus fod y cyfryw, ac yn iawn ar yr un pryd yn yr un peth? Etto, caled fel dywed M., meddwl y cospa Duw ddyn am ei gamsynied; byddai hyny yn greulawn. Nid rhaid meddwl y cospa, y dial Duw o gwbl; cosp dyn fydd ei gyflwr, ein cur fydd ein cyffroad i iawnddeall o'r—neu ein hargyhoeddiad o'r gwir fel y mae yn Nuw, pelydrau yr hwn fydd i'r meddwl camsyniol fel pelydrau haul i lygaid afiach—ynghyd a'n ymwybod o'n hanghydmaredd llygredig ni â'i berffeithderau gogoneddus Ef. Ein barn, ein hargyhoeddiad ni, fydd o'i weled Ef y gwir Duw fel ag y mae. A'n huchelgais, a'n gwynfyddedd fydd fyth ymdebygu iddo, heb un gwahaniaeth ond graddau.

Etto, gall fod tynged dyn yn y gydwybod; ond ein cysur yw, fod y gydwybod yn ammodedig yn yr addysg a'r deall; oherwydd onid plentyn addysg yw'r gydwybod wedi ei chenedlu o'r synwyr? A thyma'r mater yn ein dwylaw ein hunain: megys, "ffordd y bywyd yw ceryddon addysg, a ffynon bywyd yw y deall." * * * Fel hyn y cynyrcha iawn addysg; iawn ddeall iawn gred; iawn gydwybod, ac iawn gydwybod wir ac annherfynol wynfyd, "ym molawd Perffaith Un." * * Tuedda ysgrifau E. W. L. ag M., hefyd i ddifreinio Crist'nogaeth o'i harbenigrwydd a'i hurddasoldeb, o herwydd, yn eu hol hwy, mae enwau lawer dan y nefoedd trwy ba rai y mae yn bossibl i ddyn fod yn gadwedig. * * Yn wir, Mr. Gol., gwedi im' ddarllen ysgrif E. W. L., a myned ymlaen, a gwedi cael M. yn parhau i guro ar yr un tant, braidd na feddyliais fod cynghrair rhyngddynt i wyrdroi Crist'nogaeth i benrhyddid, a bod yr YMOFYNYDD yn rhoddi benthyg ei hun i'n harwain trwodd i'r cymmle di-ffin; nes gweled eich sylw hynod darawiadol chwi, ac yn y man gwelais eu diwedd hwynt. A chaniatewch imi yma i ddiolch i chwi am eich sylw manylgraff, prydlawn, a synwyrlawn. Hyn gyda dymuno eich lles, a llwyddiant yr YMOFYNYDD, sydd oddiwrth yr eiddoch, yn gariadus,

METHODIN.

[Cyfieithu y ddau ddernyn cyfeiriedig wnaeth ein Gohebydd E. W. L. o'r *Christian;* a braidd, meddyliwn, yr ystyria ef ei hun yn attebol am yr hyn *nad oedd* ynddynt, ond a ddylasai fod. Y mae genym bob lle i gredu ei fod ef yn cyttuno â'r ychydig sylwadau a ddarfu i ni weled ei fod yn gymhwys i'w gwneud, gyda golwg ar y cyfryw ddiffygiadau.—GOL.]

Y GYNADLEDD.

SYR,—Fel un yn awyddus i weled cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i bob peth a dueddo i eangu cylch gwybodaeth grefyddol yn ein gwlad, ac fel un wedi derbyn pleser mawr wrth ddarllen yr anerchiadau a draddodwyd yn y cwrdd chwarterol diweddaf ar y testun dan sylw, yr wyf am ofyn yn barchus a ellid dim sicrhau mewn rhyw fodd fod sylwedd yr hyn a draddodir ar y cyfryw achlysuron yn cael ei roi ar glawr, gyda'ch cenad chwi wrth reswm, ar ddalenau yr YMOFYNYDD? Mae y testunau a ddewisir i gael eu trafod yn ein cynnadleddau, bob amser mor bell ag yr wyf fi yn gallu barnu, yn rhai tra phwysig ac adeiladol, a'r hyn a ddywedir arnynt yn ffrwyth ymchwil a myfyrdod blænorol. A diau genyf, a chymeryd ein cynnulleidfaoedd gyda'u gilydd, nas gallant gymeryd gafael ddeallus ar yr hyn a ddywedir, yn unig trwy ei glywed ar y pryd, yn gystal a phe caent ef yn argraffedig i'w bwyso a'i chwilio yn ol llaw. Heblaw hyn, da gan bawb adfyfyrio ar yr hyn a roddodd hyfrydwch iddynt yn y gwrandawiad. Tybiwyf hefyd y byddai y cyllun hwn yn foddion i attal llawer o gam-ddealltwriaeth a cham-gyhuddiad. A byddai y cyfryw gofnodion yn goffadwriaeth barchus a pharhaus am lawer o'n cyfeillion pan wedi tewi yn yr angeu, ac heb allu llefaru mewn un modd arall. Dymunir, gan hyny, yn ostyngedig i awgrymu—a fyddai yn ormod i weinidog y capel lle y cynhelir y cwrdd ofalu fod cofnodiad o'r hyn a ddywedir yn cael ei wneyd gan ryw un cymhwys i'r gwaith? Nis gwn am un ffordd arall mor debyg o sicrhau na fydd i'r peth gael ei esgeuluso.

EWYLLYSIWR DA.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y LLYS. — Mae'r Frenhines wedi hyspysu i'w Chyfrin-gynghor ei chydsyniad a'i bwriad i Dywysog Cymru gael ymbriodi â'r Dywysoges Alexandra o Denmarc. Anfonwyd mewn modd ffurfiol i ofyn llaw y Dywysoges a chydsyniad Llŷs Denmarc, yr hyn a ganiatäwyd yn rhwydd. Bydd y briodas yn debyg o

gymmeryd lle yn y Gwanwyn. Mae'r Dywysoges er ys wythnosau bellach mewn ymweliaid a'i Mawrhydi yn Windsor. Yn y cyfamser y mae Tywysog Cymru gyda Thywysog a Thywysoges Prwssia wedi bod yn ymweled ag Ynysoedd Môr y Canoldir, ac â Naples a Rhufain; ac yn ol yr hyspysiadau diweddaf maent yn awr ar ddychweliad. Wedi iddo ddyfod i'w oed disgwylir llawer bellach yn ddwys ac yn bryderus, ond yn obeithiol oddiwrth Dywysog Cymru. Y mae yn awr yn dod i gylch pwysig. Yn gywir iawn y sylwyd gan y *Times*, "Nad oes un safle yn yr holl fyd, ar y foment bresennol, mor bwysig a'r eiddo y dyn ieuangc hwn." Bydd ei ddylanwad ar gymdeithas ac ar y byd o annhraethol bwys.

Y Cyfyngder yn Lancashire.—Mae gauaf caled yn gwynebu ar y dioddefwyr yn Sir Lancaster; ond y mae yn dda genym weled fod cyd-ymdeimlad dwys yn cael ei ddangos tuag atynt, gan bob plaid ac yn mhob cwr o'r wlad. Mae arian lawer wedi ac yn cael ei gasglu a'i ddanfon i'w cymhorth, a gobeithiwn y parheir i wneud hyny tra byddo yr anghen mor fawr ag y mae. Lle mae cymmaint o filoedd yn wythnosol o golled huriau a elent i gynnal teuluoedd, amhosibl lai na bod y cyfyngder yn ddirfawr ac yn gyffredinol. Y mae'r llywodraeth, bellach, yn gweled yr angenrheidrwydd o edrych i mewn i'r matter, ac yn lled addaw gofalu i gymeryd mesurau fel na byddo eisiau angenrheidiau bywyd ar neb o'r dioddefwyr.

Cyfryngiad yn achos America.—Yn ddiweddar darfu Ymherawdwr Ffrainge, mewn modd ffurfiol, gynnyg i Loegr a Rwssia i gyduno ag ef i gyfryngu yn achos America, gyda'r amcan i attal y rhyfel am chwe' mis, ac i agoryd y Dê yn ystod yr amser hwnw. Ond gwrthododd Lloegr a Rwssia i gydsynio a'r cynnygiad. Wedi rhoddi rhesymau priodol dros y cyfryw wrthodiad, terfyna Arg. Russell trwy ddywedyd "fod llywodraeth ei Mawrhydi, ar ol dwys ystyriaeth, wedi dyfod i'r penderfyniad, nad oes un lle yn bresennol i gredu y derbyniai llywodraeth yr Undeb y cynnygiad; ac y gwnai gwaith llywodraeth yr Undeb yn bresennol yn gwrthod, ein hattal rhag ail wneud y cynnygiad yn fuan." Dywedir fod y gwrthodiad wedi creu teimlad cryn boenus yn llŷs Louis Napoleon: ond nad yw masnachwyr Paris yn gofidio dim oherwydd i'r Ymherawdwr fethu cyrhaedd ei amcan, gan yr edrychant ar gyfryngiad cyfeillgar yn America fel rhagredegydd cyfryngiad arfog—neu mewn geiriau eraill, rhyfel arall.

Y Cyfandir.—*Prwssia.*—Y mae cryn dawelwch ar hyn o bryd trwy yr oll o Ewrop. Arwydd lled dda ydyw fod hyd yn oed llywodraeth *Awstria* yn boddloni i leihau'r fyddin gyda golwg i ysgafnhau trethi'r wlad. Ond y mae Brenin *Prwssia*, fel mae gwaetha'r modd, yn para'n ystyfnig yn matter y ffrae fu rhyngddo a chynrychiolwyr y bobl yn y Senedd, o barthed maintioli a chost y fyddin. Ymddengys bod y bobl yn cyddeimlo â'u cynnrychiolwyr, ac yn benderfynol i sefyll dros eu breintiau, ond mewn tawelwch. Gellid meddwl nad yw y Brenin, serch hyny, ddim heb beth cnofa cydwybod oddiwrth yr hyn a ddywed mewn atteb i annerchiad a gyflwynwyd iddo gan ddirprwyaeth o Letzlingen: "Y mae pobl yn anghredu fy ngeiriau—yn lleda-enu drwgdybiaeth am fy nibenion, ac yn cam-arwain y wlad. Safaf yn ffyddlawn at fy ngair, cadwaf y cyfansoddiad, ond nid yn yr ystyr a roddir iddo gan y rhai ydynt yn ymosod ar yr orsedd a'r goron, ac yn ceisio gwanhau yr awdurdod frenhinol a dderbyniais gan Dduw."

Italy a'r Pab.—Y mae yr Annerchiad at y Pab, yn erfyn ar i'w Sancteiddrwydd adferu heddwch i Italy, ac i'r eglwys Babaidd, o'r diwedd wedi ei gyhoeddi. Y mae pedwar mis wedi myned heibio er pan ddechreuwyd y symmudiad gan offeiriad o'r enw Passaglia. Nid oes dim llai na *deng mil* o'r dosparth mwyaf deallus, dylanwadol, a gonest o offeiriaid Pabaidd Italy wedi rhoddi eu henwau wrtho. Canfyddir ysbryd ac amcan yr annerchiad yn y dyfyniad canlynol o hono;—

"Wele, fendigedicaf Dad, y mae llais unfryd—llais crefydd, duwioldeb Pabaidd yn adseinio o'r naill ben i'r llall o Italy—'Hir oes i'r Pab!' ond clywir llais arall hefyd—llais gwladgarwch ac annibyniaeth cenhedlaethol. 'Hir oes i Rufain prif ddinas y deyrnas newydd!' Os goddefir i'r ddau lais hyn wrthwynebu eu gilydd, fe esgor ar ganlyniadau dychrynllyd mewn ystyr dym-

morol ac ysbrydol, ac nis gallwn yn rhesymol obeithio am un fendith genhedlaethol na chrefyddol. Pwy gan hyny fydd y dyn sanctaidd sydd wedi ei dynghedu i wneud y lleisiau hyn yn unsain, ac i'w gwneud hwynt yn ffynnonell dedwyddwch i'r genedl ac i'r Babaeth, i gymdeithas, ac i'r Eglwys? Nis gall hwnw, fendigedicaf Dad, fod yn neb amgen na chwi. Chwi yn unig all adrodd y llais hwnw yn effeithiol a dderbyniasoch gan y Bugail mawr, a'r hwn, gan gychwyn o'r Vatican, a lanwai nefoedd a daear â gorfoledd. Gan hyny, clywer y llais hwn o'ch genau, O Pius! Bydded i Italy, yr hon sydd yn edrych arnoch chwi gyda chariad mabaidd ac yn erfyn arnoch, glywed y gair hwn—'Heddwch!' Ië, Dad: cyhoeddwch heddwch, a chyflwynwn yn ein henwau ein hunain, ac yn enw Italy, ddiolchgarwch tragwyddol i chwi."

Groeg.—Mae pob peth yn dawel hyd yma yn ngwlad Groeg. Y mae llynghesi Lloegr, Ffraingc, &c., yn gorwedd nid yn neppell oddiwrth y Piræus. Y gorchwyl pwysicaf ar law y Groegiaid fydd dewis brenin. Yr ydys wedi bod yn siarad am amryw; ac yn mhlith eraill âm y Duc Leuchtenberg, yr hwn sydd yn perthyn i deuluoedd teyrnasol Ffraingc a Rwssia; yr hwn modd bynag ni annogir gan y llysoedd hyny i fod yn ymgeisydd. Y mae plaid gref dros gael y Tywysog Alfred o Loegr i fod yn frenin. Disgwylir dirprwyad ar fyr iawn o'r Piræus i'r wlad hon i ofyn cydsyniad y Frenhines a'r Tywysog.

America.—Nid oes nemawr o gyfnewid wedi cymeryd lle yn sefyllfa berthynasol y rhyfel. Mae y ddwy blaid mor groes i'w gilydd ac mor benderfynol ag y buont oll, os nid mwy felly. Caethwasaeth, fel y gwyddys, neu benderfyniad i gadw i fynu gaethwasaeth oedd achos dechreuad y gwrthryfel. Ceir gweled ond odid, fel y gobeithia pob dyngarwr, y bydd terfyniad y rhyfel brawddaddol ac echryslon yma, ac nis gall bara yn hir iawn etto, i arwain yn uniongyrchol i ddiddymiad neu drefn ar ddiddymiad, y felldith achosol. Ofer yn bresennol yw disgwyl y bydd i'r llywodraeth Undebol roddi derbyniad i unrhyw gynnygiad i gyfryngu rhyngddynt hwy a'r Dê. Ond er maint y collediou dangosir fod etto nerth a phenderfyniad o'r naill du fel y llall. Mae Gen. M'Clellan wedi cael ei ddiswyddo, a Gen. Burnside wedi ei osod yn ei le i lywyddu byddin y Potomac. Nid yw yr olaf, a'r a wyddom ni, hyd yn hyn wedi gwneud dim i ddangos fod y cyfnewid er gwell.

Bu Farw—

Er medrusrwydd Dr. Douglas a gofal goraf ei brawd a'i chwaer—ac er hiraeth mawr yn nghyd a pharch diffuant ei chyfeillion aml trwy'r holl gymmydogaethau—yn 24ain oed, ar y 24 o Awst, Miss Jane Jones, Vrongelin, Ystrad Aeron. Pregethodd yr ysgrifenydd ar ddydd ei chladdedigaeth i dorf fawr o wrandawyr, o'r 39 Salm a'r 6ed adn. Yr oedd ei nodweddiad hi mor dda fel ag i beri i "gloncgeriod hynod am hanes" fod heb ddim drwg i'w ddywedyd am dani; felly cafodd ei chladdu heb iddynt hwy fyned i'r orsedd nag iddynt gadw *siet* i benderfynu unrhyw beth yn ei chylch. Boed heddwch i'w llwch. Tau Gimel.

Hydref 24ain, yn 54 oed, Mrs. Margaret Williams, priod Mr. Wm Williams, (Carw Coch), Stag Inn, Trecynon, Aberdar. Cafodd ei chystuddio am amser hir gan glefyd y galon, a chafodd bob cynorthwy meddygol oedd alluadwy er ei hadferu i'w chynefinol iechyd; ond pan nad oedd un gobaith am wellhad daeth cenad Iôn i'w chymeryd ymaith oddiwrth ei gwaith at ei gwobrwy. Yr oedd yn hynod dawel ac hyderus trwy ystod ei chlefyd, a dangosai ymostyngiad i drefniadau ac ewyllys ei Chrëwr. Yr oedd yn briod hawddgar a hoff, ac yn fam anwyl a thyner, ac o berchen tymer haelionus a theimladwy, parod i estyn llaw o gymorth; a chaffai ei pharchu yn mhell ac agos am ei chymwynasgarwch a'i charedigrwydd. Y Llun canlynol ymgynullodd tyrfa luosog ynghyd i'w hebrwng i "dŷ ei hir gartref;" a chyn cychwyn cafwyd pregeth gymwysiadol ar yr achlysur gan y Parch. Rhys J. Jones, oddiwrth 2 Cor. v. 1, a dangosodd mewn modd eglur a dealladwy, frauolder einioes a sicrwydd marwolaeth "a bod i ni adeiliad sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefodd," a rhoddodd gynghorion dwys i ymbarotoi gyferbyn a'r un amgylchiad. Yna hebryngwyd y trancedig i'w beddrod oer i eglwys St. Ffagan, lle yr erys hyd ganiad yr udgorn diweddaf. Gadawodd ar ei hol briod a phlant galarus: diau eu bod yn teimlo yn fawr ar ei hol, ond bydded iddynt i ymdawelu ac ymostwng, ac i gadw ar gof y llaw, a phwy sy'n llywodraethu; ac yn barod i ddywedyd gyda'r hen batriarch Jobgynt yn oriau chwerwaf profedigaeth, "Yr Arglwydd a roddodd, yr Arglwydd a gymerodd ymaith, bendigedig fyddo enw yr Arglwydd."

Aberdar. Eiddil Cynon.

Barddoniaeth.

HYFFORDDA BLENTYN.

"Hyffordda blentyn yn mhen ei ffordd, a phan yr heneiddio, ni ymedy efe â hi."

Addysg foreu sy'n hyrwyddo
'R meddwl dynol ym mhob dawn,
A'i garedig gyfarwyddo,
I fwynderau pur a llawn;
Gan ei drwsio â sirioldeb,
Ac addfwynder yn ei foes,
A'i orlenwi â gwroldeb,
I wynebu pob rhyw groes.

Er meistroli y gwyddorau,
A chyfreithiau nattur oll,
Prîn yw dyn beth bynna'i ddoniau,
Os bydd Cariad pur ar goll;
Iesu'n unig rydd annogaeth
I orchfygu pob ryw wŷn;
Nid oes dim fel gwawl Crist'nogaeth,
I lwyr ddedwyddoli dyn.

Byth ni thraethir y manteision,
Ddaw i ddyn trwy addysg ddoeth;
Tywys ef i ddolydd gleision,
Llawn o'r ffrwythau mwyaf coeth:
Trwyddi 'i enaid 'n uwch. uwch, heda
I fröydd gwawl ei Nefol Dad;
Ar y daith hi 'i disycheda,
A bywiol ddw'r y Ganaan wlad.

Na ddiffygiwn ni rieni,
Daenu addysg mewn modd dwys;
Ond ymdrechwn rhag trueni,
Gael ein plant i'r goleu glwys:
Torrwn ymaith y canghenau
Drwg a diffrwyth fo'n eu mhoes;
Dyma'r ffordd i ladd cynhenau,
Fel bo'r.t ddedwydd trwy eu hoes.

Ar gefnfor garw siomedigaeth,
Twyll cyfeillion, a phob brâd,—
Er yn nôd i erledigaeth,—
Er ein sarnu'n dost dan dra'd,—
Yng ngwyneb chwyrn rhuthriadau adfyd,
A chwerwaf ddirmyg byd yn grwn;
'Does nawdd fel addysg boreu bywyd,
Anghor enaid dyn yw hwn.

Er ein noddi rhag trychineb—
Meddwl tywyll, difwynhad;
Dwys ymgeisiwn y ddoethineb
A gyfrenir inni'n rhad.

Nid oes addysg tebyg iddi,
Addysg yw ein Tad o'r nef,—
Gwawl y nef sy'n rhedeg trwyddi,
I'n goleuo atto Ef.

Sawl a ddysgwyd gan yr Iesu,
Sy'n hyderus iawn o hyd;
Pob amgylchiad sy'n ei nesu
I dragwyddol fywiol fyd:
Holl drefniadau Tad rhagluniaeth,
Ynt i hwn i'r eitha'n ddoeth;
Trwyddynt sugna felus luniaeth,
A gyfnertha'i enaid coeth.

Pan bo dyrnod oer marwoldeb
Yn ei suddo lawr i'r bedd,—
Hwn pryd hyn fydd lawn gwroldeb,—
Tawel huna mewn llawn hedd;
Cred yn gadarn yn addewid
Duw ei Dad trwy Iesu Grist,—
Caiff fywyd bythol yn gyfnewid;
Pam gan hynny bydd e'n drist?

Yr Aelwyd yw'r lle i reoli—Plant,
A chwip lwys tosturi,—
Yn ffyrdd llon goreuon Rhi—y nefoedd,
Er lles y bydoedd, rhai llwys heb oedi.

Treeynon. CYNONWYSON.

YCHYDIG LINELLAU

cyflwynedig i Mr. Jenkin Evans, Cofiadur Gwaith y Dinas, ger Pontypridd, am ei fedrusrwydd ynghyd a'i barodrwydd i finio fy Ellyn.

Gwir fawl sy'n cymhell am awchu ellyn,—
Mawl a thanau o ganmoliaeth ennyn:
A gwr o Dailiwr gyweiria ei delyn,
A hylwydd hwylia 'i ddwylaw i ddylyn,
Y swynawl dônan a'r seiniawl denyn,
Nid gogan ydyw ac nid gwag nodyn,
Yw rhoddi cainge gwiw seingaingc i SIENCYN IFAN fawrfardd, am finio fy erfyn;
I wneud hardd olwg heb gilwg gelyn
Yng ngwyneb rhychiog—wyf wyn heb wrychyn,
'Nawr mae ngwyneb fel mebyn—hardd siriol
Yn dlws ireiddiol hèb ol un blewyn.

HOMO DDU.

Diwedd Cyfrol IV.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.